BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

# Adroddiad Perfformiad

EBRILL-RHAGFYR 2023



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

# Ein cynnydd hyd yn hyn

Mae'r adroddiad perfformiad hwn, sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2023-24 ac a gyflwynir bob chwarter, yn olrhain ein cynnydd yn erbyn targedau a nodir yn ein cynllun busnes, a sut rydym yn cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, yn awr ac yn y dyfodol.


**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

- Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →
- Cyfleoedd blasu sydd ar gael →
- Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →
- Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →
- Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

- Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

- Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →
- Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →


### Cynyddu nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB

TARGED +4%

+26%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r cyfleoedd blasu sydd ar gael

TARGED +4%

+42%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB

TARGED +7%

+15%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o bobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle

TARGED +15%

100% +135%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu nifer y prentisiaethau CITB a ddechreuir

TARGED +4%

-1%

IS NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt

TARGED +20%

0%

IS NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu

TARGED +5%

+11%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi

TARGED +4%

+8%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

**Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB**

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

## CYNNYDD O 4% YN NIFER Y BOBL SY'N CYRCHU CYMORTH GYRFAOEDD CITB

### CYNNYDD: ▲ UWCH A'R TARGED AR +26%

Mae cymorth gyrfaoedd CITB yn gynhwysfawr, yn llawn gwybodaeth ac yn cefnogi pobl ar hyd eu taith. Llwyddodd Am Adeiladu, sydd â'r nod o hysbysu, ymgysylltu a denu pobl i yrfa ym maes adeiladu, i gael 1.1m o ymwelwyr unigryw ers mis Ebrill 2023, mwy nag erioed. Roedd bron i chwarter yr ymweliadau â'r adran prentisiaethau, sy'n cynrychioli cynnydd enfawr o 806% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Oddi yno, gall ymwelwyr symud ymlaen i Talentview Construction i ddod o hyd i brentisiaeth neu swydd yn y diwydiant. Mae cyfanswm yr ymweliadau â safleoedd wedi cynyddu 125% ac mae cliciau i wneud cais am swyddi wedi cynyddu 496% i dros 19,000. Mae ein strategaeth o ddull integredig o ymdrin â gyrfaoedd yn talu ar ei ganfed, a disgwyliwn i ymgysylltiad wella ymhellach cyn ymgyrchoedd Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol ac Wythnos Prentisiaethau'r Alban sydd ar ddod.

Pan fyddant wedi setlo i mewn i yrfa adeiladu gwerth chweil, gall hyfforddeion a phrentisiaid brofi eu gallu yn SkillBuild, y gystadleuaeth sgiliau aml-grefft fwyaf yn y DU. Cynhaliwyd Rownd Derfynol Genedlaethol SkillBuild ym mis Tachwedd 2023, â dros 1,000 o bobl yn gwylio 78 o gystadleuwyr yn brwydro ar draws 10 crefft. "Mae SkillBuild wedi newid fy mywyd yn gyfan gwbl, gan roi'r cyfleoedd i mi, hwb i fy hunangred a'r set sgiliau i'm galluogi i dyfu fy angerdd," meddai'r cyn enillydd Harry Scolding. Gall hyfforddeion a Phrif Weithredwyr fel ei gilydd ddod yn Llysgenhadon STEM Am Adeiladu, gan ddod ag adeiladu yn fyw i bobl ifanc. Rydym wedi cynyddu'r rhwydwaith gan 21%, gan gyflwyno sesiynau gyrfaoedd rhyngweithiol i dros 960 o ysgolion ledled y DU.

← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL   NESAF →

### CYNYDDU NIFER Y BOBL SY'N CYRCHU CYMORTH GYRFAOEDD CITB






# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

## CYNNYDD O 4% YN Y CYFLEOEDD BLASU SYDD AR GAEL

### CYNNYDD: UWCH NA'R TARGED AR +42%


Rydym wedi gweld ymateb gwych i'n rhaglen flasu gan gyflogwyr, darparwyr dysgu a darpar newydd-ddyfodiaid fel ei gilydd. Mae dros 20,000 o bobl wedi elwa o brofiadau blasu, â 7,000 o sesiynau wedi'u darparu yn y tri mis diwethaf. O fod ychydig yn is na'r targed yn y chwarter blaenorol, rydym bellach yn olrhain ar y blaen ac ar y trywydd cywir i guro'r targed diwedd blwyddyn yn sylweddol.

Darparwyd mwy na 18,000 o brofiadau blasu wyneb yn wyneb, gan gwmpasu ymweliadau safle, cyflwyniadau, gweithdai gyrfaoedd rhyngweithiol, a chyfleoedd i archwilio peiriannau a thechnoleg flaengar. Mae hyn yn cynnwys 300 o fyfyrwyr yn rhoi cynnig ar efelychwyr peiriannau ac yn derbyn arddangosiadau ymarferol yn nigwyddiad I-Construct yn CETC Fareham. Fe wnaethom hefyd gynnal arddangosfa yn Wythnos Adeiladu'r DU, yn noddi'r Ganolfan Newid Ddiwylliannol i arddangos y camau cadarnhaol y mae'r diwydiant yn eu cymryd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Darparodd ein rhaglen flasu yn yr Alban, sy'n darparu teithiau safle, diwrnodau agored a phrofiadau, 885 o weithgareddau. Yn y cyfamser, rhoddodd ein comisiwn blasu rhithiol gyfle i 918 o bobl ifanc archwilio adeiladu.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

#### CYNYDDU'R CYFLEOEDD BLASU SYDD AR GAEL




**Dros 20,000** o brofiadau blasu wedi'u darparu

**7,000 o sesiynau** wedi'u darparu yn y tri mis diwethaf

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu


Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

**Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB**

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →


## CYNNYDD O 7% YN NIFER YR UNIGOLION SY'N CAEL EU CEFNOGI I GYFLOGAETH AR ÔL AB

### CYNNYDD: UWCH NA'R TARGED AR +15%

Rydym yn helpu newydd-ddyfodiaid i drosglwyddo i gyflogaeth o Addysg Bellach trwy gyllid, mentora a chymorth uniongyrchol i'w cyflogwyr.

Cefnogodd ein grantiau prentisiaeth 24,356 o ddysgwyr, i fyny o 22,305 y llynedd, sef cynnydd o 9%. Rydym wedi buddsoddi £50m mewn grantiau prentisiaeth, gan helpu 8,746 o gyflogwyr – BBaChau yn bennaf – i fuddsoddi yn y dyfodol ac ehangu eu gweithlu. Cefnogodd ein grant Teithio i Hyfforddi, sy'n helpu prentisiaid a'u cyflogwyr â chostau teithio a chynhaliaeth, dros 3,000 o ddysgwyr, sef cynnydd o 38%.

Mae'r Tîm Cymorth i Newydd-Ddyfodiaid (NEST) yn bodoli i helpu cyflogwyr i lywio'r llwybr i gymryd prentis yn llwyddiannus a darparu cymorth parhaus i ddysgwyr. Mae'r tîm wedi helpu dros 1,400 o bobl i ddechrau prentisiaeth, 81 i gwblhau eu rhaglen, a 136 arall i symud ymlaen o Addysg Bellach i brentisiaeth. Rydym yn ehangu'r tîm i gwmpasu ehangder Prydain Fawr drwy gyflogi ymgynghorwyr ychwanegol, gan ddarparu cymorth ymarferol, rhad ac am ddim i hyd yn oed mwy o gyflogwyr.


← BLAENOROL ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL NESAF →


CYNYDDU'R NIFER O UNIGOLION SY'N CAEL EU CEFNOGI I GYFLOGAETH AR ÔL AB




**£50m** wedi'i fuddsoddi mewn grantiau prentisiaeth

Helpodd NEST dros **1,400** o bobl i ddechrau prentisiaeth

Cynnydd o **10%** yn nifer y BBaChau sy'n derbyn grantiau prentisiaeth

**Dros 24,000** o ddysgwyr wedi'u cefnogi gan grantiau prentisiaeth

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

## CYNNYDD O 15% YN NIFER O BOBL MEWN CYFLOGAETH BARHAUS AM 3 MIS TRWY HYBIAU AR Y SAFLE

### CYNNYDD: UWCH NA'R TARGED AR +135%

Mae ein Hybiau Profiad ar y Safle yn cynyddu'r gronfa dalent yng Nghymru a Lloegr drwy gysylltu cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, Partneriaethau Cyflogaeth Lleol, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill, gan alluogi'r datblygiad a chyflogaeth o bobl sy'n barod i weithio ar y safle o gymunedau lleol.

Mae bron i 7,000 o bobl wedi'u ymgysylltu'n llwyddiannus gan yr hybiau, â 4,700 o'r rheini'n dod yn barod i weithio ar y safle ac ar gael ar gyfer cyflogaeth ar unwaith. Mae 2,178 wedi symud ymlaen i gyflogaeth barhaus yn y diwydiant (a ddiffinnir fel gweithio'n barhaus am dros dri mis), i fyny o 928. Mae un chwarter o'r rhai sydd bellach mewn cyflogaeth barhaus yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl anabl, a'r rhai o gymunedau ethnig lleiafrifol.

Rydym hefyd yn datblygu cynllun peilot carchar-i-hwb, lle gall carcharorion ennill profiad gwaith hanfodol a chymwysterau iechyd a diogelwch ar ôl eu rhyddhau, gan roi ail gyfle iddynt a chefnogi'r diwydiant i lenwi bylchau sgiliau.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

#### CYNYDDU'R NIFER O BOBL MEWN CYFLOGAETH BARHAUS AM DRI MIS TRWY HYBIAU AR Y SAFLE




Cynnydd o **135%** yn nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth barhaus

**4,700 o bobl** wedi'u hyfforddi i fod yn barod i weithio ar y safle

Dros **2,100** o bobl bellach mewn cyflogaeth barhaus

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu


Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

**Prentisiaethau CITB a ddechreuir**

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →


## CYNNYDD O 4% YN NIFER Y PRENTISIAETHAU CITB A DDECHREUIR

### CYNNYDD: IS NA'R TARGED AR -1%

Prentisiaethau yw sylfaen datblygu sgiliau yn y diwydiant adeiladu. A dyna pam rydym nid yn unig yn darparu grantiau sylweddol i gefnogi eu cyflogwyr, ond hefyd yn hyfforddi llawer o brentisiaid ein hunain. Mae cyfanswm o 1,826 o ddysgwyr wedi dechrau rhaglen brentisiaeth CITB, cynnydd o 1% ar y llynedd. Mae'r mwyafrif helaeth (1,519) o'n prentisiaid yn yr Alban, lle'r ydym ar hyn o bryd yn olrhain cyfradd cyflawniad o 68%, sy'n uwch na'r cyfartaledd y DU gyfan o 53%.

Yn Lloegr, rydym yn olrhain gostyngiad o -1% yn nifer y prentisiaethau a ddechreuir. Er bod hyn yn is na'r targed ac mae'n annhebygol o gael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn, rydym ar y blaen i'r cynnydd o -6% a brofir ar draws prentisiaethau adeiladu yn Lloegr. Mewn cyferbyniad, mae'r Alban a Chymru yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl. Fodd bynnag, mae'r newid hwn yn Lloegr yn cyd-daro â'n hymrwymiad i flaenoriaethu ansawdd dros nifer, felly er bod nifer y prentisiaethau a ddechreuir yn is na'r disgwyl, disgwyliwn i'r gyfradd gyflawni gyffredinol wella.

### CYNYDDU NIFER Y PRENTISIAETHAU CITB A DDECHREUIR

TARGED +4%

-1%

Dechreuodd **1,826** o ddysgwyr brentisiaeth CITB

Cyfradd cyflawniad o **68%** yn yr Alban sy'n uwch na'r cyfartaledd

# Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

**Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt**

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

## 20% O ALW AM SGILIAU'R DIWYDIANT WEDI'I GWMPASU GAN GYMHWYSEDD A LLWYBRAU HYFFORDDI Y CYTUNWYD ARNYNT

### CYNNYDD: IS NA'R TARGED AR 0%

Ein nod yw cwmpasu 20% o alw am sgiliau'r diwydiant â chymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt, gan nodi'n glir yr ymddygiadau, y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer pob galwedigaeth. Er bod cynnydd da yn cael ei wneud ar draws y grwpiau galwedigaethol, rydym yn olrhain islaw'r targed ac yn annhebygol o gyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn. Mae prosesau ymgynghori a chymeradwyo ar waith ar gyfer pedwar fframwaith cymhwysedd (Paentio ac Addurno, Teilsio Waliau a Lloriau, Galwedigaethau Trywel, a Phlastro), gan gyflawni'r garreg filltir o 6% erbyn canol mis Ionawr.

Mae Toi (ôl-osod) yn y cyfnod ymgynghori, mae galwedigaethau pren ar ffurf drafft yn barod i'w hadolygu gan y Gweithgor cyn ymgynghoriad, ac mae'r goruchwyliwr safle adeiladu ar ffurf drafft. Mae Goruchwyliwr Gwaith Galwedigaethol, wedi'i alinio â Goruchwyliwr Safle Adeiladu, a Thriniaethau Inswleiddio Adeiladau hefyd ar ffurf drafft. Mae'r ymdrech gynhwysfawr hon yn cyfrannu'n sylweddol at y nod o ddatblygu gweithlu mwy cymwys.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

GALW AM SGILIAU'R DIWYDIANT WEDI'I GWMPASU GAN GYMHWYSEDD A LLWYBRAU HYFFORDDI Y CYTUNWYD ARNYNT




"Mae prosesau ymgynghori a chymeradwyo ar waith ar gyfer pedair fframwaith cymhwysedd, gan gyflawni carreg filltir o 6% erbyn canol mis Ionawr."

# Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

**Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu**

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

## CYNNYDD O 5% YN Y CYMORTH HYFFORDDIANT CITB Y MAE CYFLOGWYR YN EI GYRCHU

### CYNNYDD: UWCH NA'R TARGED AR +11%

Mae dros 25,000 o gyflogwyr wedi manteisio ar ein cynnig cymorth hyfforddiant helaeth, yn amrywio o gyrsiau hyfforddi cyfnod byr o ddydd i ddydd i ariannu rhaglenni hyfforddi arloesol ar raddfa fawr.

Rydym wedi buddsoddi £112m i helpu i hyfforddi'r gweithlu, â bron i hanner (£50m) yn grantiau prentisiaeth. Mae nifer fawr wedi manteisio ar ein grantiau eraill hefyd, â bron i 7,000 o gyflogwyr yn elwa ar dros £19m mewn grantiau cyrsiau byr, yn cael dros £2,800 ar gyfartaledd, a 2,100 arall yn cael dros £13m mewn grantiau cymhwyster, sef grant o £6,000 fesul cymhwyster. Mae'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant, sy'n darparu hyd at £25,000 i fusnesau i uwchsgilio eu gweithlu, wedi cefnogi bron i 2,000 o gyflogwyr ag £8.3m mewn cyllid, y mwyafrif helaeth ohonynt yn BBaChau.

Mae'r Gronfa Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth, sydd bellach wedi cau ar gyfer ceisiadau, wedi cefnogi 155 o fusnesau mawr i ddatblygu eu sgiliau arwain, rheoli a goruchwylio. Derbyniodd bron i 17,000 o bobl hyfforddiant drwy'r gronfa, gan ragori ar y targed o 5,000. Mae'r Rhwydwaith Cyflogwyr yn parhau i berfformio'n gryf, gan helpu 709 o gyflogwyr i gyrchu hyfforddiant, grantiau a chyllid. Cefnogodd Grwpiau Hyfforddi, sy'n gweithio ar y cyd â'r Rhwydwaith, dros 1,200 o gyflogwyr.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

CYNYDDU'R CYMORTH HYFFORDDIANT CITB Y MAE CYFLOGWYR YN CYRCHU






# Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

**Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi**

## CYNNYDD O 4% YN YR UNIGOLION SY'N CAEL EU HYFFORDDI NEU EU CEFNOGI

### CYNNYDD: UWCH NA'R TARGED AR +8%

Rydym yn hyfforddi neu gefnogi dros 700,000 o bobl, â'n holl gynnyrch a gwasanaethau hyfforddi yn cyrraedd mwy o bobl o gymharu â'r llynedd. Mae dros 8,000 o ddysgwyr wedi hyfforddi yn y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC), cynnydd o 9%. Yn y cyfamser, derbyniodd 897 o ddysgwyr hyfforddiant arbenigol mewn galwedigaethau arbenigol yn y Ganolfan Achrededig Arbenigol Genedlaethol (NSAC), cynnydd o 13%.

Mae dros 355,000 o bobl wedi cwblhau prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (HS&E), â 142,000 arall wedi cwblhau cwrs Site Safety Plus (SSP). Mae'r gyfres hon o gyrsiau yn sicrhau y gall gweithwyr aros yn ddiogel ar y safle wrth weithio tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus, â'r opsiwn o gwblhau'r hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth, o bell neu wrth e-ddysgu.

Cefnogodd y Rhwydwaith Cyflogwyr dros 10,000 o bobl i gwblhau eu hyfforddiant trwy feithrin cysylltiadau rhagweithiol â darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, gan sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch ac yn fforddiadwy. Mae nifer y dysgwyr sy'n elwa ar grantiau prentisiaeth, grantiau cymhwyster a grantiau cyrsiau byr yn uwch na'r targed ac yn uwch na'r llynedd.

← BLAENOROL

← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

### CYNYDDU'R NIFER O UNIGOLION SY'N CAEL EU HYFFORDDI NEU EU CEFNOGI

